



Canllawiau ar gyfer ailagor Canolfannau Cymunedol yng Nghymru

RHAGAIR

Mae'r canllaw hwn ar gyfer canolfannau cymunedol yng Nghymru i roi trosolwg byr i chi o sut i baratoi ar gyfer ailgychwyn eich gwasanaethau pan gaiff hynny ei ganiatáu.

Ar adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn, rhaid i ganolfannau cymunedol barhau ar gau, oni bai am eithriadau penodol. Mae'r eithriadau hynny'n cynnwys darparu gwasanaethau gwirfoddol hanfodol i bobl ddigartref neu agored i niwed ac, o dan gais y Gweinidogion Cymreig neu awdurdod lleol, ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. [Gweler Rheoliad 7 yma](#), a ddiweddarwyd ar 3 Gorffennaf 2020.

Ar ddydd Gwener, 10 Gorffennaf, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y bydd canllawiau'n cael eu cyhoeddi i gefnogi canolfannau cymunedol i aildddechrau mwy o wasanaethau cymunedol yn ôl disgrisiwn yr awdurdodau lleol.

Mae'r [Rheoliadau Diogelu Iechyd \(Cyfyngiadau Coronafeirws\) \(Cymru\) 2020](#) yn gosod nifer o gyfyngiadau ar fusnesau a gwasanaethau eraill a rhaid i chi reoli'ch mudiad mewn modd sy'n cydymffurfio â'r rheoliadau hyn, wrth iddynt gael eu diweddarau neu eu diwygio.

Mae'r canllaw hwn yn gywir ar adeg ei gyhoeddi ac rydym yn argymhell ei ddarllen ar y cyd â chanllawiau'r llywodraeth. Dylech eu hadolygu'n rheolaidd

i gael y wybodaeth ddiweddaraf. Yng Nghymru gallwch gyfeirio at y gwefannau hyn i gael arweiniad: [Llywodraeth Cymru](#) ac [Iechyd Cyhoeddus Cymru](#). Dylech hefyd gyfeirio at ganllawiau a ddarperir gan yr [Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch](#). [Gweler y rheoliadau eu hun ac unrhyw ddiweddariadau neu newidiadau yma](#).

Nid yw'r canllaw hwn yn gyngor cyfreithiol ac nid yw CGGC yn derbyn unrhyw atebolrwydd sy'n deillio ohono ac nid yw'n gyngor proffesiynol. Mae CGGC yn argymhell eich bod yn gwneud eich gwaith ymchwil eich hun ochr yn ochr â'r canllaw hwn i sicrhau eich bod wedi cymryd pob cam rhesymol i sicrhau diogelwch eich adeilad, eich staff, gwirfoddolwyr, cwsmeriaid a'r gymuned.

Os oes gennych yr hawl i agor eich lleoliad, dim ond pan fydd yn ddiogel gwneud hynny a'ch bod yn teimlo'n hyderus yn eich gallu i amddiffyn defnyddwyr yr adeilad y dylech wneud. Tan hynny dylai eich lleoliad aros ar gau.

Ystyriwch a oes cyfyngiadau lleol yn eu lle, yn ogystal ag ystyried y posibilrwydd o gyfyngiadau lleol yn y dyfodol.

Cofiwch, os bydd rhywun yn mynd yn sâl yn y gweithle gyda phesychiad parhaus newydd, tymheredd uchel, colli eu synnwyr arogli neu flasau arferol, yna dylid eu hanfon adref a'u cynghori i ddilyn y cyngor i aros gartref.

CYNNWYS

Aseiad Risg	4
Profi, Olrhain, Diogelu	4
Yswiriant	5
Pellter corfforol/cymdeithasol	5
Hylendid	6
Ymddiriedolwyr a llywodraethu da	6
Pobl agored i niwed	6
Gwirfoddolwyr	7
Cymryd archebion a thaliadau arian parod	7
Arwyddion diogelwch a phellter corfforol	7
Contractau a llogi lleoliadau	7
Glanhau	8
Cynhyrchion glanhau	9
Cyflenwadau Cyfarpar Diogelu Personol (CDP)	10
Cydraddoldebau	11
Y Gymraeg	11
Defnyddio'r lleoliad at bwrpas gofal plant	11

ASESIAD RISG

Mae CGGC yn argymhell y dylech gynnal asesiad risg Coronafeirws penodol yn ychwanegol at unrhyw asesiad risg a allai fod gennych ar waith eisoes. Dylai eich asesiad risg nodi risgiau uchel a nodi unrhyw gamau lliniaru y gallech eu rhoi ar waith. Dylech ystyried gweithredu amserlen i sicrhau y gallwch ailagor yn ddiogel. Mae'r canllawiau ar y Coronafeirws yn esblygu wrth i dystiolaeth newydd ddod i'r fei, felly dylai patrwm eich cynlluniau fod yn ddigon hyblyg i fod yn barod i addasu i unrhyw newidiadau.

Efallai y bydd cyhoeddi eich cynlluniau a'ch asesiad risg yn helpu i dawelu meddwl staff, gwirfoddolwyr, y cyhoedd a rhanddeiliaid a bydd yn nodi'r newidiadau a'ch disgwyliadau yn glir. Er enghraifft, newid o archebu'n bersonol i archebu ar-lein a pheidio â derbyn taliadau arian parod.

[Gweler yma ar gyfer templed o asesiad risg Coronafeirws penodol ac arweiniad a gyhoeddwyd](#) gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. [Ceir esiamplau yma](#) os nad ydych chi'n gyfarwydd â chwblhau asesiadau risg.

PROFI, OLRHAIN, DIOGELU

Er mwyn rheoli lledaeniad y firws, mae CGGC yn argymhell eich bod yn cadw cofnod o bawb sy'n dod i mewn i'ch adeilad yn unol â [strategaeth Profi, Olrhain, Diogelu Llywodraeth Cymru](#). Dylech hefyd sicrhau bod y rhai sy'n llogi'r lleoliad yn cadw cofnodion at yr un dibenion.

Sylwch nad yw Rheoliad ar Ddiogelu Data (h.y. GDPR, Deddf Diogelu Data 2018) yn atal rhannu data lle mae budd cyhoeddus o'r pwys mwyaf. Fodd bynnag, rhaid i chi sicrhau eich bod yn gwneud pob ymdrech i hysbysu unigolion sut y bydd eu data yn cael ei ddefnyddio, h.y. cynllunio ar gyfer y tebygolrwydd y bydd efallai yn rhaid i chi drosglwyddo eu gwybodaeth i'r cynllun Profi, Olrhain, Amddiffyn pe bai angen i'w swyddogion olrhain cysylltiadau gysylltu â'r unigolyn. Felly, dylech adolygu'ch hysbysiadau preifatrwydd i sicrhau eu bod yn dal i gydymffurfio o ystyried y newidiadau mewn amgylchiadau.

Mae'r ICO wedi cynhyrchu [canllawiau defnyddiol ynglŷn â chasglu manylion cwsmeriaid ac ymwelwyr – gweler yma](#).

YSWIRIANT

Mae'n bwysig iawn rhoi gwybod i'ch cwmni yswiriant am eich gweithgareddau. Bydd eich cwmni yswiriant yn gofyn i chi ddilyn a chydymffurfio â'r holl argymhellion a chanllawiau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru. Bydd angen i chi hysbysu'ch cwmni yswiriant y byddwch chi'n ailddechrau gwasanaethau a thrafod unrhyw ofynion newydd y mae'n rhaid i chi eu hystyried er mwyn sicrhau eich bod yn cydymffurfio â'ch polisi yswiriant.

Mae broceriaid yswiriant Thomas Carroll wedi cynhyrchu canllawiau yn benodol ar gyfer mudiadau gwirfoddol sy'n ailddechrau eu gwasanaethau y gellir eu canfod [yma](#) ac [yma](#).

PELLTER CORFFOROL / CYMDEITHASOL

Mae mesurau cadw pellter corfforol / cymdeithasol yn gamau a gymerir i leihau rhyngweithio rhwng unigolion / cartrefi er mwyn lleihau trosglwyddiad y Coronafeirws. Mae'r mesurau cyfredol ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn yn gosod pellter llym o ddau fetr rhwng pobl yn eich adeilad ac ar eich eiddo. Efallai y bydd derbyn pobl mewn niferoedd llai yn ei gwneud hi'n bosibl cynnal y pellter hwnnw.

Rhaid cymryd 'mesurau rhesymol' i sicrhau y gellir cyflawni hyn a [gellir canfod arweiniad pellach gan Lywodraeth Cymru yma](#), sy'n cynnwys enghreifftiau fel shifftiau am yn ail a lleihau nifer y bobl yn yr adeilad ar unrhyw un adeg. Mae CGGC yn argymhell eich bod yn cadw manylion y camau rydych chi wedi'u cymryd i sicrhau bod 'mesurau rhesymol' wedi cael eu gweithredu a manylion yr addasiadau rydych chi wedi'u gwneud i gydymffurfio â'r gofyniad hwn.

Mae marciau llawr, llwybrau unffordd, clirio dodrefn, gosod ardaloedd dynodedig a systemau rheoli ciw diogel yn rhai o'r mesurau y gallech eu hystyried. Sylwch mai dim ond awgrymiadau o ddulliau posibl yw'r rhain ac nid ydynt yn rhestr wirio: mae pob lleoliad a senario yn wahanol.

HYLENDID

Dylech wneud trefniadau ar gyfer hylendid dwylo gwell er mwyn atal y risg o'r haint. Gallai enghreifftiau gynnwys golchi dwylo neu ddefnyddio hylif diheintio dwylo wrth fynd i mewn neu allan o'r adeilad, ar ôl defnyddio toiledau ac wrth symud rhwng gwahanol ystafelloedd/lleoliadau yn yr adeilad. Dylid defnyddio posteri ac arwyddion i annog unigolion i olchi eu dwylo. Gellid gosod cyfarwyddiadau ar sut i olchi dwylo ger sinciau. [Mae amrywiaeth o ddarluniau a phosteri ar gael i chi fel y rhai yma.](#)

Bydd arferion anadlu ystyriol hefyd yn lleihau trosglwyddiad Coronafeirws. Dylai posteri 'Ei ddal, ei daflu, ei ddifa' fod yn weladwy i atgoffa unigolion i barhau â lefelau hylendid da. [Gellir canfod posteri argraffadwy dwyieithog sydd ar gael ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru yma.](#)

YMDDIRIEDOLWYR A LLYWODRAETHU DA

Mae gan ymddiriedolwyr rôl bwysig i'w chwarae a rhaid i chi weithredu i leihau'r potensial i ledaenu'r Coronafeirws ymhlith unigolion yn eich adeilad ac ar eich eiddo. Rhaid i chi gadw'r holl ddogfennau ar asesiadau a wnaed a chofnodi'r holl benderfyniadau a gymerwyd. O ran trefniadau llywodraethu yn ystod y pandemig hwn, cynghorir ymddiriedolwyr i ymgyswddo â'r canllawiau a ddarperir gan y [Comisiwn Elusennau](#), a chadw ar y blaen â newidiadau a diweddariadau.

Efallai y bydd yn rhaid i chi addasu natur eich gwasanaethau oherwydd achosion o'r Coronafeirws. Os felly, cyfeiriwch at eich amcanion elusennol yn eich dogfennau llywodraethu i sicrhau bod unrhyw wasanaethau newydd yn unol â'ch amcanion.

POBL AGORED I NIWED

Mae dyletswydd statudol ar gyflogwyr i warchod iechyd, diogelwch a lles eu gweithwyr yn y gweithle cyn belled ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol. Mae ganddynt hefyd ddyletswydd gofal eu gweithwyr. Mae'n bwysig nodi y gallai cyfran sylweddol o'ch gweithwyr fod yn dioddef straen a phryder ar hyn o bryd a dylech sicrhau bod cefnogaeth ar gael. Mae Ymgyrch Iechyd Cyhoeddus Cymru 'Sut wyt ti?' yn darparu [rhai adnoddau defnyddiol yma.](#)

Dylech hefyd nodi na chaniateir i unigolion 'eithriadol o agored i niwed' ddychwelyd i'r gwaith tan 16 Awst 2020 ac y byddant yn derbyn llythyr gwarchod gan Brif Swyddog Meddygol Cymru/neu eu meddyg teulu.

GWIRFODDOLWYR

Mae'n ddyletswydd ar fudiadau i ofalu am wirfoddolwyr, ac fe ddylent dderbyn yr un lefel o warchodaeth ag unrhyw gyflogai. [Gweler yma am wybodaeth bellach gan CGGC ynglŷn â gwirfoddoli yn ystod yr argyfwng.](#)

CYMRYD ARCHEBION A THALU GYDAG ARIAN PAROD

Lle bo modd, dylech geisio cymryd archebion ar-lein neu dros y ffôn. Lle nad yw hyn yn bosibl, dylech osgoi trin arian parod ac ystyried taliadau digyswllt neu gerdyn. Os oes rhaid i chi barhau i gymryd arian parod, yna dylid gwisgo menig wrth drin arian.

ARWYDDION DIOGELWCH A PHELLTER CORFFOROL

Mae Llywodraeth Cymru wedi creu [sawl arwydd dwyieithog a allai fod yn ddefnyddiol i chi, gweler yma](#). Gellir argraffu'r arwyddion hyn a'u harddangos yn eich adeilad. Mae opsiynau eraill ar gael o ran arwyddion, gan gynnwys amrywiaeth eang o bosteri, labeli ac arwyddion llawr: e-bostiwrch rpgenquiries@wcva.cymru i gael gwybodaeth am gyflenwyr.

Ar hyn o bryd mae rheol ar waith i gadw pellter o ddau fetr: gallai fod yn ddoeth nodi hyn mewn lleoedd y byddai unigolion fel arfer yn ymgynnull, fel y fynedfa i leoliad.

CONTRACTAU A LLOGI CANOLFANAU

Mae'n bwysig ymgynghori â'r rhai sy'n llogi'ch canolfan, yn enwedig y rhai sy'n llogi slotiau rheolaidd. Efallai, er enghraifft, bod angen ystafell fwy arnynt nag y byddai fel arfer er mwyn cadw at fesurau cadw pellter cymdeithasol.

Dylech hefyd ystyried a yw'n ofynnol i'r huriwr lanhau arwynebau ac offer neu a yw hyn yn rhywbeth y byddwch chi'n ei reoli. Rhaid i chi fod yn hyderus bod

y glanhau yn cael ei wneud i'r lefel uwch sydd bellach yn ofynnol a bod yr unigolion yn cyflawni'r gofynion trylwyr ac yn dilyn arweiniad ar lanhau.

Argymhellir eich bod yn darparu hylif diheintio dwylo wrth fynedfeydd / allanfeydd ac mewn ystafelloedd cyfarfod. Dylech hefyd gofnodi'r amser a'r dyddiad diwethaf y gwnaed y glanhau ac ystyried ei arddangos i dawelu meddwl ymwelwyr â'ch canolfan.

Dylech roi blaenoriaeth i wasanaethau hanfodol yn ystod y cam ailagor. Lle mae gan y ganolfan sawl archeb, efallai y bydd angen i chi adael cyfnod hirach o amser rhwng yr archebion er mwyn gallu glanhau ac i atal tagfeydd rhag ffurfio wrth i bobl fynd i mewn ac allan o ystafelloedd/yr adeilad. Dylech hefyd sicrhau bod cyflenwadau'n cael eu hail-lenwi, fel hylif diheintio a deunyddiau glanhau.

Dylech roi amodau newydd i hurwyr yng ngoleuni'r Coronafeirws, yn ysgrifenedig ac ynghlwm wrth y cytundeb llogi arferol. Rhaid i'r huriwr dderbyn yr amodau newydd yn ysgrifenedig (trwy lofnod).

Dylech ddarparu copi o'ch asesiad risg i'ch huriwr. Gallwch hefyd ofyn iddynt gynnal eu hasesiad risg eu hunain a darparu copi i chi.

Dylid annog y rhai sy'n llogi'ch canolfan i ddod â'u bwyd a'u diod eu hunain yn hytrach na gwneud bwyd a diod yn yr adeilad, gan leihau'r glanhau sy'n ofynnol yn y gegin. Dylid annog hurwyr sy'n dod â'u hoffer eu hunain i mewn i ddefnyddio eu hylif diheintio a'u clytiau eu hunain.

Dylid annog agor drysau a ffenestri i awyru'r ganolfan yn hytrach nag awyru mecanyddol, ond cofiwch am oblygiadau iechyd a diogelwch. Rhaid i ddrysau tân aros ar gau.

Ni ddylid defnyddio ffaniau sy'n cylchredeg aer, [gweler yma am ragor o wybodaeth](#).

GLANHAU

Mae'n debygol iawn bod eich adeilad wedi bod ar gau ers cryn amser ac felly dylech gynnal gwiriad iechyd a diogelwch cyffredinol cyn ailagor. Mae risg

uwch o dwf bacteria, er enghraifft clefyd y lleng filwyr, oherwydd bod dŵr wedi bod yn llonydd. Dylech wneud gwaith glanhau dwfn a diheintio'r adeilad yn drylwyr cyn ailagor.

Dylid rhoi protocolau glanhau ar waith: bydd angen i chi benderfynu pa mor aml y dylid glanhau / dihalogi'n rheolaidd a bydd hyn yn seiliedig ar eich asesiad risg. Dylech hefyd gofnodi'r gwaith glanhau ac arddangos y manylion. Os nad ydych chi'n trosglwyddo'r dyletswyddau glanhau hynny i'r hurwyr, bydd angen i chi sicrhau bod gan yr unigolyn sy'n gyfrifol, ee y gofalwr, amserlen glir o'r sesiynau sydd wedi'u llogi a bod digon o amser yn cael ei ddyrannu ar gyfer dyletswyddau glanhau.

Wrth ystyried eich trefn lanhau, dylech gyfeirio at y [canllawiau sydd ar gael gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, a amlinellir yma](#). Dylech nodi arwynebau sy'n cael eu cyffwrdd yn aml fel dolenni drysau, switsys golau, ac ati, oherwydd bydd angen glanhau'r rhain yn fwy rheolaidd na'r arfer. Mae'r canllaw yn awgrymu dau ddull: glanhau dwfn a glanhau cyfnodol. Mae hefyd yn awgrymu eich bod yn cyfyngu ar symud ac yn lleihau'r angen i gyffwrdd â gwrthrychau ac mae'n cynnwys rhai awgrymiadau defnyddiol. Lle bo modd, dylech gael gwared ar gylchgronau a dodrefn meddal.

Rhaid i chi hefyd ystyried gwastraff a gynhyrchir o lanhau ynghyd â gwastraff cyffredinol arall y dylid ei roi mewn bag sbwriel plastig a'i glymu pan fydd yn llawn, ei roi mewn ail fag bin, ei glymu a'i roi mewn cynhwysydd sbwriel addas a diogel nes ei gasglu.

Sylwch fod yn rhaid glanhau dyfeisiau symudol hefyd, [gweler yma am ragor o wybodaeth](#).

CYNHYRCHION GLANHAU

Yn anochel bydd mwy o alw am gynhyrchion glanhau a hylif diheintio dwylo. Os na all eich cyflenwr arferol eich cynorthwyo, anfonwch e-bost i rpgenquiries@wcva.cymru os hoffech wybodaeth am gyflenwyr.

[I gael gwybodaeth am ddewis diheintyddion arwyneb, darllenwch hwn](#) gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

CYFLENWADAU CYFARPAR DIOGELU PERSONOL (PPE)

Mae Cyfarpar Diogelu Personol yn cynnwys eitemau fel masgiau wyneb, ffedogau, menyg, feisorau, gorchuddion esgidiau, ac ati. Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw brinder cyflenwad mawr yng Nghymru ar adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn. Mae cynnydd yn y galw am PPE ers COVID-19 wedi gweld llawer iawn o gynhyrchion ffug a chynhyrchion nad ydynt yn cydymffurfio yn dod i mewn i'r farchnad, mae'n hanfodol eich bod yn prynu cynhyrchion sydd wedi'u hardystio'n gywir yn unig.

Efallai na fydd angen PPE ar eich mudiad, a dylid penderfynu ar hyn trwy eich asesiad risg a'r arweiniad diweddaraf sydd ar gael. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cynghori nad oes unrhyw ofyniad i ddefnyddio PPE, ac eithrio wrth ddarparu gofal personol/clinigol uniongyrchol o fewn dau fetr neu lle na ellir osgoi bod o fewn dau fetr i unigolyn. Gellir dod o hyd i wybodaeth bellach a mwy manwl [yma](#) ac [yma](#).

Os dewch i'r casgliad bod rhaid i'ch mudiad gael PPE, mae'n bwysig nodi bod yn rhaid i chi sicrhau eich bod yn gwybod sut i ddefnyddio'r PPE er mwyn iddo fod yn effeithiol. Ni fydd yn atal yr haint rhag lledaenu oni bai ei fod:

- Yn cael ei ddefnyddio a'i newid ar yr amser iawn
- Yn mynd law yn llaw â hylendid dwylo da
- Bod arferion anadlu ystyriol ar waith

Os ydych chi'n defnyddio menig a ffedogau er enghraifft, cofiwch mai dim ond unwaith y gallwch eu defnyddio. Dylid golchi dwylo rhwng defnyddwyr gwasanaeth ac ar ôl tynnu menig.

Os ydych chi'n defnyddio gorchuddion wyneb ([gweler canllawiau Llywodraeth Cymru](#)) neu fasnau, rhaid i chi beidio â'u tynnu i ffwrdd a'u gadael ar arwynebau a rhaid i chi beidio â gadael gorchudd wyneb/mwgwd o dan eich trwyn neu'n hongian oddi ar eich gên. Yn yr un modd, ni ddylai gogls fod ar gorun eich pen.

Mae hunan-halogi yn gyffredin iawn wrth dynnu PPE. [Mae arweiniad ar gyfer gwisgo a thynnu PPE ar gael yma](#).

Mae CGGC yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (rhan o Lywodraeth Cymru), sydd ar hyn o bryd yn anfon diweddariadau rheolaidd ar stoc ardystiedig, argaeledd a phrisiau. Yna trosglwyddir y wybodaeth hon i restr ddosbarthu e-bost yn benodol ar gyfer y sector gwirfoddol yng Nghymru. Os hoffech gael eich ychwanegu at y rhestr hon, e-bostiwch ewaldron@wcva.cymru.

CYDRADDOLDEB

Rhaid i'ch strategaeth i ailddechrau gwasanaethau gydnabod anghenion a hawliau unigolion. Er enghraifft, ni ddylai unrhyw rwystrau corfforol, rhwystrau cyfathrebu newydd ac ati greu rhwystr i bobl sy'n defnyddio ffyn cerdded neu gadeiriau olwyn, dylent fod yn weladwy ac yn glir ac ni ddylent fod yn berygl i bobl â nam ar eu synhwyrau. Gallech hefyd ystyried, er enghraifft, darparu bag gerllaw i gael gwared ar hancesi papur ar unwaith lle gallai fod angen cymorth ar unigolion sy'n peswch neu disian.

Y GYMRAEG

Er bod Comisiynydd y Gymraeg yn cydnabod yn ystod argyfwng cenedlaethol ei bod yn bosibl nad yw rhai mudiadau'n gallu cynnig gwasanaeth Cymraeg ym mhob sefyllfa, rhaid i chi gydymffurfio â gofynion Mesur y Gymraeg o hyd. Hefyd, mae'n bwysig cynnwys hyn fel rhan o'ch cynllunio, er enghraifft, sicrhau bod arwyddion yn ddwyieithog. [I gael gwybodaeth am wasanaethau a chynigion yn ymwneud â'r Gymraeg, gweler yma.](#)

DEFNYDDIO'R LLEOLIAD AT BWRPAS GOFAL PLANT

Dylai canolfannau sy'n cael eu defnyddio i ddarparu gofal plant neu feithrinfa ddilyn y [canllawiau perthnasol sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru yma.](#)

Datblygwyd y canllaw hwn gan CGGC mewn ymgynghoriad â Llywodraeth Cymru.